UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# ADOLYGU FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL ADY

## Cyflwyniad

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle o gael mynegi barn ar fframwaith deddfwriaethol ADY. Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae ymarferwyr proffesiynol byd addysg wedi wynebu heriau sylweddol wrth ei rhoi ar waith. Mae'r diwygiadau wedi cael effaith bellgyrhaeddol ar y byd addysg yng Nghymru a hynny ar adeg pan oedd newidiadau sylweddol eraill yn digwydd, newidiadau megis cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a digwyddiadau digynsail eraill megis y pandemig.

## Diffinio ac adnabod ADY

Mae'n fater o gonsyrn a gwir bryder gennym fod y niferoedd a gydnabyddir ag ADY wedi gostwng ers cyflwyno'r Ddeddf ADY newydd. Er yr ymddengys yn newyddion da fod llai o ddysgwr ag anghenion, rydym yn gwybod nad dyna'r achos. Ar y naill law, mae arbenigwyr yn dweud wrthym mai yr un yw'r diffiniad o ddisgybl ag anghenion addysgiadol arbennig â'r diffiniad o ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn y cyflwyniad i adroddiad 2022-23 Tribiwnlys Addysg, dywed Jane McConnell 'Welsh Government have been clear that any child that has previously been found to have SEN will also have ALN unless there is specific evidence that their needs have changed', eto mae niferoedd y disgyblion ag ADY wedi cwympo. Mae tystiolaeth o hyn yn y cyfrifiadau ysgol blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru:

***Cyfrifiad 2022***

‘Gofynnwyd hefyd i ysgolion beidio defnyddio’r categori ‘Anawsterau dysgu cyffredinol’ ac i ailasesu categori priodol o angen ar gyfer disgyblion o’r fath.’[1]

***Cyfrifiad 2024***

Roedd 52,152 disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion a gynhelir (11.2% o'r holl ddisgyblion), i lawr o 63,089 (13.4%) ym mis Ionawr 2023.[2]

Ymddengys felly, fod yna amwysedd o ran y diffiniad. Yn Neddf 2014, dyma’r diffiniad:

Section 20 Children and Families Act 2014 defines a child as having Special Educational Needs (SEN) if he or she "has a learning difficulty or disability which calls for special education provision to be made for him or her".

Cymharer hyn â’r hyn o nodir yn Neddf 2018

**2Additional learning needs**

(1)A person has additional learning needs if he or she has a learning difficulty or disability (whether the learning difficulty or disability arises from a medical condition or otherwise) which calls for additional learning provision.

(2)A child of compulsory school age or person over that age has a learning difficulty or disability if he or she—

(a)has a significantly greater difficulty in learning than the majority of others of the same age, or

(b)has a disability for the purposes of the Equality Act 2010 (c. 15) which prevents or hinders him or her from making use of facilities for education or training of a kind generally provided for others of the same age in mainstream maintained schools or mainstream institutions in the further education sector.

Mae angen sicrwydd fod pawb yn deall y diffiniad a bod pawb yn dehongli ‘significantly greater difficulty’ yn yr un modd.  Os yw Barnwr yn dweud ar y naill law fod y gofynion yr un fath, ond rydym yn gweld ar y llaw arall fod y niferoedd wedi gostwng, mae angen holi cwestiynau ac ymchwilio pam mae’r niferoedd wedi gostwng.  Ceir awgrym ymhlith rhai athrawon mai’r baich gwaith ynghlwm â’r

[1] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Chwefror 2022 [HTML] | LLYW.CYMRU
[2] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ionawr-2024-html

CDU sydd wrth wraidd y gostyngiad mewn niferoedd ac na allai ysgolion ymdopi gyda chymaint o CDU a'r oblygiadau sydd ynghlwm wrthynt. Mae angen mynd i'r afael â hyn a sicrhau nad yw disgyblion dan anfantais oherwydd llwyth gwaith gweinyddol. Nid yw'r plant oedd ar gofrestrau AAA wedi diflannu ac mae angen cymorth arnynt. Pwy sy'n darparu'r cymorth hwnnw iddynt erbyn hyn?

**Diffinio ac adnabod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)**

Mae cysylltiad rhwng y pwynt hwn a'r pwynt blaenorol. Mae angen diffiniad pendant, diamwys o 'Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol' a sicrwydd fod arian ar gael i gynnig unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar y dysgwyr. Mae'n bwysig bod ysgolion a sefydliadau addysg yn cael eu hariannu'n ddigonol, er mwyn gallu gwireddu dyheadau'r Bil o roi'r plentyn yn y canol a sicrhau'r gorau posibl i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

Os deuir i'r casgliad fod angen DDdY benodol ar ddisgybl ag ADY, yna dylai'r Awdurdod Lleol gyllido'r ddarpariaeth honno. Nid yw'n deg fod ysgolion yn petruso rhag adnabod ADY plentyn, am nad oes cyllid digonol ganddynt i ddarparu'r gofynion.

Nid yn unig mae angen cyllid digonol ar gyfer cynnig y ddarpariaeth, ond mae angen hyfforddiant ar bawb sydd ynghlwm â'r holl broses. Ni ellir disgwyl i athrawon a chymorthyddion fod yn arbenigwyr ar bob maes sy'n ymwneud ag ADY. Er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pawb, mae'n rhaid wrth gyllid, adnoddau a hyfforddiant priodol.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae'r Ddeddf yn gosod y plentyn yn y canol - egwyddor sy'n cyd-fynd â'r Confensiwn e.e Erthygl 3 'Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn', Erthygl 4 'Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn [h.y hawliau'r Confensiwn] ar gael i blant'. Erthygl 12 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried', Erthygl 23 'Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol'. Dylid cofio, fodd bynnag, mai dim ond hyd at ddeunaw oed y mae'r Confensiwn yn berthnasol. Gan ystyried fod y Ddeddf ADY yn cwmpasu ystod ehangach, h.y tan 25 oed, mae angen sicrhau fod y **Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn cynnig yr un hawliau a'r un diogelwch.

**Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY**

Un o'r anghenion sylfaenol yw fod y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod yn nodi'r gofynion yn glir ac yn cydweddu â'i gilydd. Ni ddylai fod modd dehongli unrhyw un ohonynt yn wahanol i'r llall. Ymddengys ar hyn o bryd bod tipyn o wahaniaeth yn y modd y mae'r Ddeddf yn cael ei dehongli o fewn ein hysgolion ac o fewn ein Hawdurdodau Lleol. Ni ellir beio'r sefydliadau hyn am yr anhawster yma, yn enwedig o gofio i'r Barnwr Jane McConnell ddatgan 'If I were to look for a phrase that would summarise the legislation, I think I would call it 'intellectually challenging'.[3] Mawr hyderwn fod y Barnwr bellach wedi cael cyfle i drafod gyda'r Llywodraeth, fel y nodir yn adroddiad 2023-24 ' The ETW has subsequently committed to provide evidence to Welsh Government on the barriers to the clear interpretation of ALNET, as part of the review of the legislation framework announced by Cabinet Secretary, Lynne Neagle, in October 2024. [4] Mae'n bwysig bod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn gwbl glir beth sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf a bod y gofynion hynny wedi eu mynegi'n glir ac yn gryno. Dylem gael cysondeb rhwng ysgolion a rhwng Awdurdodau Lleol.

Mae'n hollbwysig hefyd fod cyllid digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer ysgolion a bod cysondeb yn y dull yr ariennir ysgolion o safbwynt ADY. Yn y ddogfen 'Adolygiad o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion'[5], nodir 'Mae amrywiadau wrth ddirprwyo ar gyfer ADY yn cymhlethu cymariaethau ariannol ar draws awdurdodau lleol'. Dylid cael cysondeb o'r naill Awdurdod Lleol i'r llall.

**Dod i benderfyniad am ADY**

Ar hyn o bryd, ymddengys fod gormod o gyfrifoldeb ar ysgolion. Oni fyddai'n well pe bai gennym asesiadau statudol y byddai'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt ar gais ysgolion neu rieni. Ar hyn o bryd nid oes trothwy pendant pwy ddylai gael eu hasesu gan yr Awdurdod Lleol.

Rydym o'r farn na ddylai ALl drosglwyddo penderfyniadau yn ôl i ysgolion a dweud wrthynt pa ddarpariaeth i'w chynnig, heb y gefnogaeth briodol a heb y cyllid angenrheidiol. Mae angen cydweithio wrth ddod i benderfyniadau pwysig fel hyn.

**Dyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Yn cynnwys y ddyletswydd ar ysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol (ALl).**

Fel y mae ar hyn o bryd, mae'r broses o lunio CDU yn llawer yn rhy feichus ac mae'n ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith athrawon. Mae athrawon yn nodi ei bod hi'n cymryd oriau lawer (tua saith awr) i gwblhau un cynllun – nid yw hyn yn gynaliadwy ac mae angen dod o hyd i ddull effeithiol, cryno o

---

[3] https://record.senedd.wales/Committee/13725 (paragraff 153)
[4] etw-annual-report-23-24.pdf

[5] adolygiad-or-fformiwla-cyllido-ysgolion-yng-nghymru.pdf

gofnodi anghenion dysgwyr.  Onid gweithredu ar ran y bobl ifanc y dylai athrawon a staff addysgol ei wneud ac nid llenwi dogfennau hirfaith?  Mae'n bwysig bod amser digonol ar gael i athrawon a'r CADY i wneud y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddfwriaeth newydd a hefyd i gael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.  Yn ôl yr hyn yr ydym yn ei glywed, mae'r pwysau y mae'r Ddeddf newydd wedi ei rhoi ar CADY wedi golygu bod nifer wedi ymddiswyddo a'i bod hi'n anodd recriwtio unigolion i'r rôl.

Fel y nodwyd uchod, mae nifer o ddysgwyr yn ein hysgolion a oedd ar gynllun Gweithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy o dan yr hen drefn.  Nid oes gan y rheiny unrhyw gynllun bellach.  Mae ymarferwyr wedi eu hannog i ddarparu ar eu cyfer y tu allan i'r system CDU.  Tybed a yw'r dysgwyr hynny yn cael y chwarae teg y maent yn ei haeddu?

Mae angen sylw ychwanegol, dwys ar ddysgwyr yn ein sefydliadau addysg.  Yn yr hinsawdd gyllidol bresennol, mae nifer o athrawon a chymorthyddion yn colli swyddi ac mae'r gymhareb athro: disgybl yn fwy heriol o'r herwydd.  Yn anffodus, nid yn unig mae llai o athrawon, ond mae mwy o waith papur a gwaith gweinyddol. Mae'r amser a neilltuir erbyn hyn i waith papur yn amser a ddylai fod yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i ddysgwyr ac i'w cefnogi ar eu taith ddysgu.

**Cynnwys CDU ADY Adran 2A ac Adran 2B**

Wrth gofnodi anghenion y dysgwr ag ADY, mae'n bwysig bod eglurder ynghylch cyllido'r gofynion.  Ni ddylai plant neu unigolion ifainc gael eu hamddifadu o'r ddarpariaeth fwyaf addas ar eu cyfer, oherwydd prinder cyllid.

Gan fod y CDU yn ddogfen gyfreithiol, statudol mae ysgolion yn poeni am oblygiadau methu â chyflawni'r gofynion yn Adran 2B.

**DDdY Adran 2C i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG**

Y teimlad yw fod angen mwy o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Iechyd a'r Byd Addysg.  Nid yw'n rhesymol disgwyl i ysgolion gefnogi dysgwyr heb fewnbwn oddi wrth y maes iechyd.  Rydym yn teimlo fod yna anghyfartaledd rhwng y gofynion ar y maes Iechyd a'r gofynion ar Addysg.  Mae angen partneriaeth gyfartal rhwng Iechyd ac Addysg, er mwyn gallu adnabod ADY a chynnig y DDdY orau i'r unigolyn.  Y teimlad yw y dylai Iechyd gael ei orfodi i ddarparu gwybodaeth a chyfrannu at y broses o adnabod a dod i benderfyniad ynghylch ADY a darparu DDdY mewn modd cyson ac amserol.  Yn achos rhai dysgwyr, mae eu hanhgenion meddygol yn cael effaith fawr ar eu hanghenion addysgol ac

ni all ysgolion ar eu pennau eu hunain gefnogi'r unigolion yma, heb fewnbwn oddi wrth Iechyd – gan gynnwys cefnogaeth allweddol CAMHS.   Rydym yn clywed am ddisgyblion yn gorfod aros am amser hir iawn am wasanaeth CAMHS – cyfnod o oedi a all gael effaith negyddol ddifrifol ar eu hiechyd meddwl ac o ganlyniad ar eu haddysg.

**Darpariaeth yn y Gymraeg**

Mae hi'n amlwg fod prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'n disgyblion ADY, yn enwedig mewn rhai meysydd.  Er bod egwyddorion y Ddeddf yn gymeradwy ac yn nodi ei bod yn cefnogi ac yn amddiffyn y dysgwyr hynny y mae angen DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg arnynt, eto i gyd nid yw realiti'r sefyllfa yn cyd-fynd â'r dyhead.  Ymddengys fod diffyg yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn ysgolion prif ffrwd a hefyd mewn lleoliadau arbenigol.  Mae hi'n her cael arbenigwyr sy'n siaradwyr Cymraeg, mae yna brinder adnoddau Cymraeg.  Yn y Cod, nodir y dylid cymryd 'pob cam rhesymol' i gynnig darpariaeth a chefnogaeth yn y Gymraeg, ond mae yna rwystrau amlwg a hefyd mae'n rhaid holi'r cwestiwn 'Beth a olygir wrth 'pob cam rhesymol'?   Mae enghreifftiau o rieni sydd am ddarpariaeth Gymraeg yn gorfod brwydro'n galed i gael y ddarpariaeth Gymraeg hon a ddylai fod yn hawl iddynt. Cofiwn Erthygl 30 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig o ran hawliau plant a phobl ifanc.  'Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio'.  Mae amddifadu'r dysgwr o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, felly, yn mynd yn erbyn hawliau sylfaenol unigolyn.  Mae'n cael effaith negyddol ar blant, pobl ifanc, eu teuluoedd, staff ysgolion, gweithwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol.  Fel y dywed Nanna Ryder mewn erthygl ar Golwg 360:

'Caiff llawer o ddysgwyr eu hasesu yn eu hail iaith ac mae teuluoedd dysgwyr sy'n cael anawsterau o ran caffael iaith yn cael eu gorfodi at yr hyn y mae Davies yn ei alw'n 'unieithrwydd gorfodol'. Maent yn gorfod defnyddio un iaith yn unig gyda'u plentyn sef Saesneg, gan arwain at newid iaith gyntaf a dewis iaith y cartref.'[6]

Yn sicr, mae angen buddsoddi mwy o arian ac adnoddau o ran datblygu'r elfen hon.  Ymysg y meysydd y mae angen eu datblygu, mae:

- Adnoddau asesu
- Adnoddau addysgu

---

[6] https://golwg.360.cymru/gwerddon/2150085-gymraeg-anghenion-dysgu-ychwanegol-ffordd-bell

- Datblygu gweithlu dwyieithog, gan gydweithio gyda darparwyr AGA a datblygu cyrsiau ar gyfer cymorthyddion dysgu dwyieithog

Mae gennym ddyletswydd moesol i frwydro dros y garfan fregus hon yn ein cymdeithas a dylid sicrhau fod y ddarpariaeth ar eu cyfer o'r ansawdd gorau a bod y cyllid, yr hyfforddiant a'r amodau gwaith gorau yn cael eu darparu ar eu cyfer.